Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau
Equality, Local Government and Communities Committee
ELGC(5)-06-18 Papur 4 / Paper 4

Elin Jones AC
Llywydd
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

10 Ionawr 2018

Annwyl Elin,

Craffu ar baratoadau Cyfrifiad Poblogaeth 2021

Mae'r Cyfrifiad o'r boblogaeth bob deng mlynedd yn hanfodol bwysig ar gyfer ein dealltwriaeth o'r genedl ac i osod meincnodau cyson bob degawd i gynhyrchu ystadegau demograffig cywir, i'w defnyddio wrth gynllunio, dyrannu adnoddau a gwneud penderfyniadau. Mae'r Cyfrifiad hefyd yn hanfodol ar gyfer dealltwriaeth fanwl o faterion fel y Gymraeg, tai a chydraddoldeb yng Nghymru.

Dan Ddeddf y Cyfrifiad 1920, mae cyfrifoldeb ar y Swyddfa Ystadegau Gwladol (yr ONS, cangen weithredol y "Bwrdd Ystadegau") i gynnal y Cyfrifiad yng Nghymru a Lloegr.

Ar hyn o bryd mae'r ONS ynghanol y gwaith o baratoi ar gyfer Cyfrifiad Poblogaeth 2021. Mae wedi gwneud gwaith sylweddol ar y cynnwys arfaethedig ar gyfer Cyfrifiad 2021, ac yn gynharach eleni cynhaliodd brawf ar raddfa fawr a oedd yn cynnwys rhannau o ogledd Powys. Ar ben hynny, drwy Raglen Trawsnewid y Cyfrifiad mae'n gwneud gwaith ymchwil sylweddol i wella'r ffordd o gasglu data tebyg i'r Cyfrifiad yn y dyfodol. Mae hyn yn cynnwys defnyddio data gweinyddol gan lywodraeth a ffynonellau data eraill.

Mae'r swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflawni'r cyfrifiad dan Ddeddf Cyfrifiad 1920 yn rai heb eu datganoli yn eu hanfod, ar wahân i'r ffaith bod gan Weinidogion Cymru bwerau dan adran 3(1) (fel y'i diwygiwyd gan baragraff 3 o Atodlen 1 i'r Ddeddf Ystadegau a'r Gwasanaeth Cofrestru 2007) i wneud rheoliadau mewn perthynas â gweinyddu'r cyfrifiad yng Nghymru. Mae Erthygl 4 o Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) (Rhif 2) 2006 (S.I. 2006/ 3334) hefyd yn darparu bod rhaid ymgynghori â Gweinidogion Cymru am unrhyw Orchymyn yn y Cyfrin Gyngor a wneir dan adran 1 o Ddeddf y Cyfrifiad 1920 yn datgan y bydd cyfrifiad yn cael ei gynnal.

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru'n gweithio'n agos gyda'r ONS ar bob lefel o drefniadau'r Cyfrifiad, ac yn ceisio sicrhau bod y rhaglen yn ystyried anghenion Cymru.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Julie.James@llyw.cymru
Correspondence.Julie.James@gov.Wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fodd bynnag, gan gofio swyddogaeth y Cynulliad Cenedlaethol yn gwneud rheoliadau ynghylch y Cyfrifiad yng Nghymru, rwy'n cynnig y byddai'n fanteisiol gwahodd yr ONS i gyflwyno'r wybodaeth ddiweddaraf am y paratoadau ar gyfer Cyfrifiad 2021 i un o'n pwyllgorau Cynulliad yn gynnar yn 2018. Byddai hyn yn sicrhau bod modd i'r Cynulliad gyfrannu at y drafodaeth ynghylch y Cyfrifiad yn gynharach na'r hyn y byddai gwneud rheoliadau yn ei ganiatáu, ac yn rhoi mwy o amser i'r ONS ystyried sylwadau'r Cynulliad cyn y paratoadau terfynol.

Byddwn yn ddiolchgar pe byddech chi yn ystyried y cynnig hwn, ac os byddech yn cytuno, ei gyfeirio at y pwyllgor priodol.

Yn gywir

Julie James AC/AM
Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip
Leader of the House and Chief Whip